# Ailddychmygu Gwasanaeth Prawf yn y Gymuned: Gwerthusiad o ‘*Grand Avenues*’

CRYNODEB GWEITHREDOL

Dr Dr Sue Thomas Prifysgol De Cymru gyda’r Athro Mike Maguire (Athro Emeritws Prifysgol De Cymu) a’r Athro Kate Williams (Prifysgol Aberystwyth a Chanolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru)
2026

**Cyhoeddwyd gan Ganolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru, Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd.** ISBN: **978-1-84220-222-7**

Hawlfraint © Prifysgol De Cymru a Chanolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru, Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd, 2024

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir lluosogi unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn heb ganiatâd ysgrifenedig gan y cyhoeddwyr.

Mae Sue Thomas, Mike Maguire a Kate Williams wedi mynnu eu hawl i gael eu hadnabod fel awduron y gwaith hwn yn unol â Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988

## Cyflwyniad

Yn 2017, dechreuodd HMPPS sefydlu prosiect o'r enw Grand Avenues (GA), a gyflwynwyd o fis Hydref 2021. Roedd gan GA y cylch gwaith i brofi a ellid cyflawni canlyniadau adsefydlu llwyddiannus a chynaliadwy mewn prosiect arloesol sy'n canolbwyntio ar y gymuned, wedi'i leoli yn wardiau Caerau a Threlái yng Nghaerdydd. Y bwriad oedd creu tîm Gwasanaeth Prawf i oruchwylio dynion ar drwydded, parôl neu ddedfrydau cymunedol, mewn safleoedd yn yr ardal ac i weithio gyda darparwyr gwasanaeth eraill (unai wedi'u comisiynu neu y gwnaed cysylltiadau lleol â nhw). Ni chynhwyswyd troseddwyr benywaidd, gan eu bod eisoes yn cael eu goruchwylio o dan gynllun Braenaru Menywod Cymru mewn safleoedd sydd ddim yn rhan o'r Gwasanaeth Prawf mewn mannau eraill. Nodwyd pedwar amcan fel sail ar gyfer gweithredu:

1. Dangos llai o niwed ac aildroseddu mewn dynion sy'n oedolion
2. Gweithredu dull cynaliadwy
3. Datblygu nodau'r prosiect trwy ymgysylltu â chymunedau lleol
4. Cael effaith gadarnhaol ar y gymuned ehangach, yn enwedig teuluoedd a dibynyddion troseddwyr, gyda'r nod hir dymor o leihau troseddu rhyng-genedlaethol.

Comisiynodd HMPPS Brifysgol De Cymru (PDC) i gynnal gwerthusiad prosesu o GA. Roedd y cyfnod gwaith maes o fis Tachwedd 2022 i fis Medi 2024. Datblygwyd pum cwestiwn ymchwil penodol: cyflwynir a thrafodir rhain yn hwyrach ymlaen yn y crynodeb hwn. Roedd y data a gasglwyd yn ansoddol yn bennaf, a gafwyd drwy arsylwi cyfranogwyr yn aml gan yr ymchwilydd, ynghyd â chyfweliadau manwl â staff HMPPS a oedd wedi bod yn rhan o baratoi a chyflwyno GA, swyddogion prawf a phartneriaid a gomisiynwyd, dynion ar brawf a oedd wedi derbyn cefnogaeth gan GA, a thri mentor cyfoedion.

## Datblygu'r Dull

Lleolwyd GA yng nghyfarwyddiaeth Cymorth a Gweinyddiaeth Strategol o fewn HMPPS. Rôl y gyfarwyddiaeth oedd rheoli prosiectau GA (cwmpas, sefydlu a chyflwyno). Roedd y tu allan i linell weithredol y Gwasanaeth Prawf, gan ddarparu mwy o gyfle i arloesi. Fodd bynnag, roedd cyfrifoldeb am arfer Gwasanaeth Prawf yn parhau i fod gyda Chyfarwyddwr Gwasanaeth Prawf Rhanbarthol a phennaeth yr Uned Cyflwyno Gwasanaeth Prawf (yng Nghaerdydd). Ni ddechreuodd GA gyda strwythur rhagnodedig na llywodraethu rheoli prosiectau llym ond cymerodd ddull hyblyg bwriadol i allu ymateb i anghenion a chyfleoedd lleol. Y bwriad oedd iddo fabwysiadu dull Datblygu Cymunedol sy'n Seiliedig ar Asedau (ABCD) a chael ei lywio gan gyd-gynhyrchu gyda phartneriaid, y gymuned a dynion ar Brawf.

## Dechrau a Chwmpasu

Elfennau craidd GA oedd:

- Adleoli tîm Gwasanaeth Prawf i leoliadau dynodedig yn y gymuned
- Nodi carfan o ddynion a fyddai'n derbyn goruchwyliaeth leol.
- Comisiynu sefydliadau trydydd sector i weithio gyda'r Gwasanaeth Prawf i nodi gwasanaethau, cyfleoedd a gweithgareddau y gellid cysylltu'r dynion ar Brawf â nhw.

Cynhaliwyd dau brif ymarfer wrth ffurfio'r GA:

- *Ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithdai cyd-gynhyrchu gyda sefydliadau arweiniol, trigolion a throseddwyr sy'n byw yng Nghaerau a Threlái i ennill cefnogaeth a sefydlu pa wasanaethau, sefydliadau a gweithgareddau oedd ar gael.*

- *Dadansoddiad carfan o droseddwyr gwrywaidd*, i nodi pwy fyddai'n cael ei oruchwylio gan y GA, beth fydd y meini prawf cymhwysedd, a maint a dynodiad tîm y Gwasanaeth Prawf sydd ei angen.

Y rhai sy'n gymwys fyddai:

- Dynion dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf a oedd yn byw yng Nghaerau a Threlái (a bennir gan god post eu man preswylio).

Cafodd dynion a oedd yn peri risg uchel o niwed i staff neu a oedd yn cael eu rheoli gan dimau Prawf arbenigol eraill eu heithrio, yn ogystal â menywod fel y soniwyd yn flaenorol.

Roedd tîm y Gwasanaeth Prawf yn cynnwys uwch swyddog prawf, dau swyddog prawf, dau swyddog gwasanaeth prawf a swyddog prawf dan hyfforddiant. Comisiynwyd sefydliadau trydydd sector i weithio gyda'r Gwasanaeth Prawf a dynion ar Brawf fel a ganlyn:

- *Cam Un*: Penodwyd partneriaeth i ddechrau dan arweiniad Cwmni Buddiant Cymunedol (CIC) yn gweithio gyda Sefydliad Datblygu Cymunedol (CDO) wedi'i leoli yn yr ardal. Ymunodd Elusen â nhw yn ddiweddarach a ddarparodd ei Chanolfan Gymorth fel y brif ganolfan leol ar gyfer GA. Daeth yr Elusen yn bartner gweithredol yn ystod y cyfnod.
- *Cam dau*: Roedd y bartneriaeth yn cynnwys y CDO a'r Elusen (a barhaodd i ddarparu'r brif ganolfan leol).
- *Cam tri*: Daeth y CDO yr unig sefydliad lleol a oedd yn darparu cefnogaeth leol.

**Canfyddiadau a Thrafodaeth**

Cynhaliwyd y gwerthusiad yn bennaf ar ffurf prosiect ymchwil gweithredol. Rhannwyd canfyddiadau rhagarweiniol wrth i'r gwaith maes gael ei wneud, a gyfrannodd at ddatblygiad GA. Mae pob un o'r pum cwestiwn ymchwil wedi'i nodi a'i drafod yn ei dro isod.

1. *Sut mae adleoli Goruchwyliaeth Prawf i'r gymuned leol wedi'i gyflawni a pha rwystrau a galluogwyr sydd wedi ei gefnogi?*

   Rhwystrau a wynebwyd:

   - Yr oedi cyn dechrau GA oherwydd Covid, ailuno'r Gwasanaeth Prawf ac amheuaeth broffesiynol ynghylch a oedd angen GA.
   - Roedd amrywiaeth o newidiadau mewn lleoliad, yn y trefniadau partneriaeth a throsiant staff o fewn y tîm Prawf, yn dilyn at 'blinder newid' i rai.

   Roedd y galluogwyr y cynnwys:

   - Daeth y perthnasoedd mwyaf ffrwythlon o fod wedi'u lleoli yn y gymuned.
   - Roedd ymrwymiad cryf gan y Swyddogion Prawf (POs) a phartneriaid i wneud i GA weithio.
   - Ymatebodd y POs yn dda i'r pwysau a'r newidiadau yr oeddent yn eu hwynebu'n barhaus
   - Roedd lefel uchel o ymddiriaeth a hyder rhwng y POs a'r gweithwyr cymorth. Roedd y POs yn gwerthfawrogi eu harbenigedd ac yn cydnabod y gwahaniaeth y gallent ei wneud.
   - Sefydlodd Arweinydd Strategaeth HMPPS GA yn llwyddiannus, roedd yn wydn, yn canolbwyntio ar atebion ac yn barod i wneud penderfyniadau anodd a newidiadau pan fo angen.
   - Rheolwyd y dynion yn llwyddiannus a doedd dim digwyddiad mawr a oedd yn peri pryder ynghylch y rhai a oedd yn cael eu goruchwylio.

- Roedd gan bob lleoliad a ddefnyddiwyd gan GA fanteision ac anfanteision a allai wella neu amharu ar waith cymunedol. Roedd ymdrechion parhaus i oresgyn anawsterau gweithredol.
- Roedd y Ganolfan Gymorth (a oedd y prif ganolfan leol ar gyfer GA) yn gweithio'n dda am gyfnod gyda phresenoldeb cyfunol y partneriaid a'r POs. Roedd yn ymddangos bod aelodau'r gymuned a throseddwyr yn integreiddio'n dda.
- Yn dilyn y cyfnod gwerthuso, parhaodd GA i ddatblygu ac i weithredu gwersi a ddysgwyd o brofiadau'r gorffennol yn gadarnhaol.

2. *Pa newidiadau mewn ymyriadau ac arferion gwaith sydd wedi digwydd o ganlyniad a pha mor effeithiol ydynt wrth gefnogi ffordd fwy cymdeithasol o fyw?*
    - Mynychodd y dynion eu hapwyntiadau; doedd adrodd cymunedol ddim yn cael ei weld fel opsiwn hawdd neu anorfodol. Adroddodd y POs yn anecdotaidd fod cydymffurfiaeth wedi cynyddu.
    - Roedd yn fanteisiol cysylltu'r dynion â gwasanaethau a gweithgareddau ar yr un pryd ag yr oeddent yn mynychu eu hapwyntiadau Prawf.
    - Roedd y cymorth ychwanegol gan weithwyr cymorth (a mentoriaid cyfoedion) a allai ddatrys problemau yn ychwanegu gwerth ac ategodd yr hyn roedd y tîm Prawf yn ei wneud.
    - Datblygwyd perthnasoedd personol da rhwng y POs a'r rhan fwyaf o'r dynion, gan wella'r cwmpas ar gyfer eu cynnwys mewn gwaith adsefydlu ystyrlon.
    - Roedd datblygu cymunedol a chydgynhyrchu yn dal i ddatblygu. Cydnabu GA fod angen iddo gynorthwyo sefydliadau partner i gael mwy o ddealltwriaeth o'r hyn a wnaeth y Gwasanaeth Prawf a sut y gallent weithio gyda'i gilydd.
    - Gallai adeiladu capasiti ar y dechrau fod wedi helpu i wella arferion gweithio partneriaid.
    - Roedd angen bod yn realistig ynghylch yr hyn y gellid ei gyflawni gyda'r adnoddau sydd ar gael ac os oedd gwaith cymunedol yn addas i bob POs.
    - Roedd diffyg cyfeiriad yn y cynllunio ar adegau a nid oedd wastad yn glir os oedd yn cael ei wneud o'r top i lawr neu o'r gwaelod i fyny; yn y pen draw, HMPPS a osododd y cyfeiriad.
    - Profodd yn anodd i'r Gwasanaeth Prawf beilota gweithio gyda llwythi achosion llai ac roedd diffyg consensws ynghylch sut y dylai hyn edrych.
    - Gallai fod wedi bod mwy o eglurder ynghylch a oedd angen hunaniaeth a chynnig penodol gan y GA i'r dynion.

3. *Sut mae'r dynion (a'u teuluoedd) wedi profi gweithio yn lleol, cael eu hanghenion wedi'u bodloni ac a yw hyn wedi arwain at berthnasoedd mwy cadarnhaol â'u swyddog goruchwylio, teulu a'r gymuned?*
    - Roedd yn well gan y dynion iddynt gael eu gweld yn eu cymuned eu hunain; roedd yn dileu rhwystrau mynychu, fel teithio. Roedd agweddau cadarnhaol yn cynnwys bod mewn amgylcheddau a oedd ar agor i'r cyhoedd, yn darparu mynediad da at wasanaethau, a doedd ddim yn atgyfnerthu hunaniaeth droseddol.
    - Helpodd cynnal apwyntiadau mewn amgylcheddau mwy hamddenol a llai troseddegol y dynion i feithrin perthynas well gyda'u POs.
    - Cymerodd rhai o'r dynion ran yn y gweithgareddau cyfoethogi a ddarparwyd gan y Ganolfan Gymorth a roeddent yn eu gweld yn werthfawr.
    - Roedd llawer o'r dynion yn gwerthfawrogi'r hyn a oedd yn cael ei wneud drostyn nhw (problemau'n cael eu datrys neu eu lleihau a chefnogaeth yn cael ei darparu) ac i rai, arweiniodd at newidiadau sylweddol mewn bywyd.
    - Byddai'r POs wedi hoffi cael mwy o weithwyr cymorth i helpu'r dynion i wneud cysylltiadau lleol e.e. mynd gyda nhw i gyfarfodydd/apwyntiadau.

- Roedd aelodau'r teulu yn gallu mynd gyda'r dynion i'r Ganolfan Gymorth, a helpodd y POs i ddysgu mwy am amgylchiadau, deinameg a phroblemau teuluol.
- Darparodd y GA gefnogaeth i sawl aelod o'r teulu, er mai'r flaenoriaeth oedd canolbwyntio ar anghenion y dynion a allai wella amgylchiadau eu teulu.
- Efallai nad oedd mynd i'r afael â throseddu rhyng-genedlaethol yn amcan realistig oherwydd cyfyngiadau yn yr adnoddau sydd ar gael i'r GA, yr arbenigedd angenrheidiol, a'r cyfranogiad hirdymor y mae rhai teuluoedd ei angen.
- Mae gan y GA y potensial i feithrin cysylltiadau â sefydliadau lleol a chenedlaethol sy'n ymgymryd â gwaith teuluol.

4. *Sut mae dulliau partneriaeth i gefnogi gwaith y Gwasanaeth Prawf wedi datblygu (trwy wasanaethau trydydd sector a gomisiynwyd a phartneriaid eraill) a beth sydd wedi gweithio'n dda a beth sydd heb weithio'n dda a pham?*
    - Roedd profiadau amrywiol o weithio mewn partneriaeth; gallai deinameg newid yn gadarnhaol ac yn negyddol. Cymerodd amser i feithrin y berthynas gywir gyda'r partner arweiniol, a ddaeth o barodrwydd i weithio trwy broblemau, nodi sut y gallai gyfrannu ei arbenigedd orau a deall goblygiadau gweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf yn well.
    - Lle nad oedd cysylltiadau partneriaeth yn gweithio cystal ag yn parhau, roedd hynny oherwydd nad oedd agwedd a dull y partner yn cyd-fynd â'r GA, oherwydd na ellid datrys gwrthdaro, roedd y partner yn rhy agored ynglŷn â'r hyn yr oedd yn teimlo y dylai'r GA fod yn ei wneud ac nid oedd yn cyflawni'r hyn oedd ei angen/yn datgysylltu.
    - Roedd gwaith amlasiantaeth yn gofyn am strwythurau cyfathrebu effeithiol a oedd yn anodd eu cael yn iawn, gan nad oedd gan yr un o'r partneriaid awdurdodaeth lawn dros y lleill ac yn y pen draw, HMPPS a benderfynodd beth oedd yn iawn ar gyfer y prosiect (ar ôl negodi a thrafod).
    - Pan roedd y Gwasanaeth Prawf mewn man a rennir gydag asiantaethau eraill, roedd yn rhaid gwneud penderfyniadau ynghylch sut roedd y fan yn cael ei defnyddio. Roedd manteision i ddefnyddio lleoliadau oedd ar agor i'r cyhoedd (llai o stigma) ond roedd hyn yn gwneud rhai risgiau'n anoddach i'w rheoli (pwy oedd yn mynychu). Roedd angen mynd i'r afael â'r materion hyn ar ddechrau'r berthynas â phartneriaid/lleoliadau i egluro arferion gwaith a disgwyliadau.
    - Roedd barn amrywiol ynghylch a ddylid cydleoli'r Gwasanaeth Prawf â gwasanaethau eraill; roedd rhai yn ei ystyried yn hanfodol, doedd eraill ddim. Yr hyn oedd yn bwysig oedd gwybod pa wasanaethau oedd yn bodoli a sut i gael mynediad atynt.
    - Roedd GA yn parhau i archwilio sut y gallai datblygu/ymgysylltu cymunedol gynyddu'r gefnogaeth sydd ar gael i'r Gwasanaeth Prawf a bodloni anghenion dynion unigol a dod o hyd i'r sefydliadau cywir i wneud hyn.
    - Doedd gan y GA ddim cynllun clir, a oedd yn fantais gan ei fod yn caniatáu hyblygrwydd ac ymatebolrwydd i newid, ond yn anfantais gan nad oedd fformat clir i'w ddilyn o ran datblygu.

5. *Sut mae dull cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar y gymuned wedi'i ddatblygu ac i ba raddau y mae cysylltiadau a chymdeithasau cymunedol ar gyfer y rhai dan oruchwyliaeth yn yr ardal wedi'u cryfhau?*
    - Doedd hi ddim yn bosib dweud bod GA wedi datblygu ffocws cymunedol cynaliadwy, ond roedd gwaith datblygu cymunedol yn cael ei ail-fywiogi tua diwedd y cyfnod gwerthuso i sefydlu a allai wneud gwahaniaeth i'r Gwasanaeth Prawf.
    - Roedd gweithio gyda phartner arweiniol a oedd wedi'i wreiddio yn y gymuned, a oedd â chyllid o ffynonellau annibynnol a allai gynnig ei wasanaethau ehangach, yn rhoi mwy o gyfle i GA ddatblygu a gallai arwain at gysylltiadau cynaliadwy i'r dynion.

- Roedd GA yn sefydlu cysylltiadau â gwasanaethau a allai gynorthwyo'r dynion gyda'u problemau amrywiol, wedi'u teilwra i anghenion unigol. Doedd y POs a oedd yn gweithio ar eu pen eu hunain methu cyflawni'r un canlyniadau yn enwedig i'r rhai â nifer o broblemau cymhleth.
- Roedd cynaliadwyedd yn gofyn am rywfaint o gyllid pwrpasol gan HMPPS y gellid ei ddarparu pe bai gwasanaethau yn cael eu comisiynu'n lleol.
- Roedd angen archwilio rôl a disgwyliadau'r POs gymunedol ymhellach o ran swyddogaethau, llwybrau gyrfa a defnyddio'r wybodaeth a gafwyd.

**Casgliadau**

Mae GA yn fenter gadarnhaol a gwerth chweil sy'n dal i ddatblygu, er bod cwestiynau'n parhau i gael eu gofyn ynghylch sut olwg sydd ar deulu, cynhwysiant cymunedol a chyd-gynhyrchu ac os oes angen hunaniaeth benodol ar GA ai peidio. Roedd HMPPS yn ymchwilio i weld a ellid efelychu GA, ac roedd gweithgaredd ar y gweill mewn sawl lleoliad i archwilio sut y gellir ei gyflawni. Y prif elfennau sy'n ei gwneud yn atblygedig yw:

1. Penderfynu beth yw'r bwriad cyffredinol ar gyfer GA a sut olwg sydd arno.
2. Gallai nodi'r partneriaid cywir gymryd amser ac efallai y bydd angen newid trefniadau wrth i'r prosiect ddatblygu.
3. Gosod llywodraethu a disgwyliadau lleol ar y dechrau ac egluro'r berthynas â llywodraethu a gwneud penderfyniadau cenedlaethol.
4. Cyd-gynhyrchu a meithrin gallu o fewn y bartneriaeth ar y dechrau i gefnogi datblygiad.
5. Deall beth sydd gan yr ardal leol i'w gynnig a sut y gellir cael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau.

Mae set lawn o argymhellion wedi'i chynnwys yn y prif adroddiad. Dylai datblygiadau yn y dyfodol ganolbwyntio ar:

- Parhau i fonitro cynnydd dynion a oedd yn ymgysylltu â GA a'r defnydd o'r gwasanaethau a gynigir.
- Ystyried beth ddylai'r cysylltiadau fod â thimau Prawf arbenigol eraill a'r Cynllun Braenaru Menywod sydd â chyfranogwyr sy'n byw yng Nghaerau a Threlái, yn ogystal â chyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau ieuenctid.

**Cyfyngiadau i'r ymchwil**

- Doedd dim posib pennu os oedd yr adborth a ddarparwyd gan y dynion a gyfwelwyd yn gynrychioliad gwirioneddol o'r garfan GA yn ei gyfanrwydd.
- Er gwaethaf ymdrechion dro ar ôl tro, ni lwyddodd yr ymchwilydd i gyfweld ag aelodau o'r teulu a oedd wedi derbyn cefnogaeth gan GA.
- Mae'r astudiaeth yn ymwneud ag astudiaeth achos un safle, felly nid yw cyffredinoli'r canfyddiadau yn bosib.
- Ystyriwyd cymhariaeth yn seiliedig ar ganlyniadau mewn ardaloedd tebyg yng Nghaerdydd ond ni chafodd ei chynnwys oherwydd amheuon ynghylch cywirdeb a chymharoldeb y data.
- Ni cheisiodd y gwerthusiad ddarparu tystiolaeth bendant o ostyngiad mewn troseddu. Roedd hyn yn cael ei archwilio gan HMPPS gyda Labordy Data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Cyheoddwyd gan Ganolfanar Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru, Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd. ISBN: **978-1-84220-222-7**